# Cofrestru i bleidleisio




Mae angen i chi **gofrestru i bleidleisio** er mwyn cymryd rhan mewn etholiadau a refferenda.






Mae **cofrestru i bleidleisio** yn golygu:

- Cwblhau'r ffurflen hon
- Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd eich enw yn mynd ar y rhestr o bobl sy'n gallu pleidleisio mewn etholiadau




Gallwch wneud cais i **gofrestru i bleidleisio** naill ai:

- Ar-lein yn: **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**



- Neu drwy gwblhau'r ffurflen hon a'i hanfon i'ch **Swyddfa Cofrestru Etholiadol**




Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn **www.comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr**

# Pwy all gofrestru i bleidleisio?



Gallwch gofrestru i bleidleisio os ydych yn:

- Byw yng Nghymru




- 14 oed neu'n hŷn




Ni fyddwch yn gallu pleidleisio:

- Yn etholiadau Senedd Cymru nac mewn etholiadau cynghorau lleol hyd nes y byddwch yn 16 oed




- Yn etholiadau Senedd y DU nac mewn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu hyd nes y byddwch yn 18 oed

Mae’n rhaid i chi hefyd fod yn 1 o’r canlynol:



- Dinesydd Prydeinig neu Wyddelig



- Dinesydd y **Gymanwlad** sydd â chaniatâd i fyw yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw



- **Gwladolyn tramor** sydd â chaniatâd i fyw yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw



Mae'r **Gymanwlad** yn grŵp o wledydd a arferai fod yn rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig.




**Gwladolyn tramor** yw rhywun na chafodd ei eni yn y wlad mae’n byw ynddi.



- Dinesydd yr Undeb Ewropeaidd



Nid oes angen caniatâd ar rai dinasyddion y Gymanwlad neu wladolion tramor i fyw yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw.




Cysylltwch â’ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol os ydych yn meddwl bod hyn yn berthnasol i chi.





Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn **www.comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr**


# Eich enw a'ch cyfeiriad





Eich enwau cyntaf




Eich cyfenw




Eich cyfeiriad




Cod post

Ydych chi'n byw mewn cyfeiriad arall hefyd?



☐ Nac ydw ☐ Ydw

Nid oes rhaid i chi roi eich rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost i ni, ond mae'n helpu os gwnewch hynny



Rhif ffôn



Cyfeiriad e-bost


# Wedi symud tŷ?




Ydych chi wedi symud tŷ yn ystod y 12 mis diwethaf?

☐ Nac ydw ☐ Ydw

Os ydych yn ateb 'Ydw' rhowch eich cyfeiriad blaenorol






Cod post




Os oedd eich cyfeiriad blaenorol dramor, a oeddech wedi cofrestru yn y DU fel pleidleisiwr tramor?

☐ Nac oeddwn ☐ Oeddwn

# Eich cenedligrwydd



Ysgrifennwch eich **cenedligrwydd**. Os oes gennych fwy nag un cenedligrwydd, ysgrifennwch bob cenedligrwydd.



Mae **Cenedligrwydd** yn golygu'r wlad rydych chi'n perthyn iddi.



Gallwn:

- Gofyn i chi am ragor o wybodaeth am eich cenedligrwydd



- Gwirio fod eich cenedligrwydd yn gywir

# Eich statws mewnfudo



Defnyddiwn yr adran hon i wirio a allwch bleidleisio mewn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.



Dim ond os ydych yn ddinesydd 1 o'r gwledydd hyn y mae angen i chi lenwi'r adran hon:


Yr Almaen
Awstria
Bwlgaria
Croatia
Yr Eidal
Estonia
Y Ffindir
Ffrainc
Gweriniaeth Tsiec
Gwlad Belg
Gwlad Groeg
Hwngari
Yr Iseldiroedd
Latfia
Lithwania
Romania
Slofacia
Slofenia
Sweden



Os **nad** ydych yn ddinesydd 1 o'r gwledydd hyn, nid oes angen i chi lenwi'r adran hon. Ewch i'r adran **Eich dyddiad geni**.




Ticiwch y blwch 'Oedd' os oedd un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol i chi ar neu cyn 1 Rhagfyr 31 2020 a'i fod wedi parhau heb doriad:



- Mae gennych statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog o dan gynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr UE (ac eithrio os gwnaethoch gais fel aelod o'r teulu sy'n ymuno)



- Mae gennych ganiatâd i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu i aros yno




- Rydych chi'n byw yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw ond nid yw'r rheolau mewnfudo yn berthnasol i chi



Os nad yw'r un o'r rhain yn berthnasol i chi, ticiwch y blwch 'Nac oedd'.



☐ Nac oedd ☐ Oedd



Os ydych wedi llenwi'r adran hon, efallai y byddwn yn gwirio pa wybodaeth sydd gan y llywodraeth am eich cenedligrwydd neu eich statws mewnfudo.

# Eich dyddiad geni




Beth yw eich dyddiad geni?

Diwrnod (rhif) ☐

Mis ☐

Blwyddyn ☐



Os nad ydych yn gwybod beth yw eich dyddiad geni, ticiwch os ydych yn:



☐ 14 - 15 oed

☐ 16 - 17 oed




☐ 18 - 75 oed



☐ 76 oed neu'n hŷn

# Eich rhif Yswiriant Gwladol




Beth yw eich rhif Yswiriant Gwladol? (Nid yw hyn yn berthnasol os ydych o dan 16 oed)




Efallai y bydd hwn i'w gael ar slip cyflog neu unrhyw lythyron swyddogol ynghylch treth, pensiynau neu fudd-daliadau.

☐ Ticiwch y blwch hwn os ydych o dan 16 oed.

# Ddim yn gwybod?




Os nad ydych chi'n gwybod beth yw eich cenedligrwydd, eich dyddiad geni neu'ch rhif Yswiriant Gwladol, rhowch wybod i ni pam.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth os nad ydych yn gwybod y rhain.

# Wedi newid eich enw?




(Does dim rhaid i chi ateb y cwestiynau hyn os nad ydych chi eisiau, ond mae’n helpu os ydych chi.)

Os ydych wedi newid eich enw, rhowch eich enw blaenorol.



Ar ba ddyddiad gwnaethoch chi newid eich enw?

# Y Gofrestr Agored



Mae swyddogion cofrestru yn cadw 2 gofrestr:

- Y Gofrestr Etholiadol
- Y Gofestr Agored



## Y Gofrestr Etholiadol

Mae ganddi enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau.

Fe'i defnyddir i wneud yn siŵr bod pobl wedi'u caniatáu i bleidleisio.



Gellir ei defnyddio hefyd i

- Helpu'r heddlu i ganfod trosedd



- Galw pobl i fod ar **rheithgor**



Mae **rheithgor** yn grŵp o bobl sy'n penderfynu a yw rhywun yn euog mewn rhai achosion llys.



- Gwirio enwau a chyfeiriadau pobl sydd am fenthyg arian

## Y Gofrestr Agored



Ni chaiff y Gofrestr Agored ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gellir ei phrynu gan berson, cwmni neu sefydliad.



Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn bydd eich enw ar y Gofrestr Agored oni bai eich bod yn gofyn iddo gael ei ddileu.

Nid yw eich hawl i bleidleisio yn cael ei effeithio os ydych chi'n gofyn am eich enw gael ei ddileu.

☐ Ticiwch os **nad ydych** am i'ch enw gael ei gynnwys ar y Gofrestr Agored.



## Pobl ifanc 14 neu 15 oed

Ni fydd pobl ifanc 14 neu 15 oed yn cael eu cynnwys ar y Gofrestr Agored.



Byddant yn cael eu cynnwys ar y Gofrestr Etholiadol, ond dim ond Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff all weld y manylion.



Tua chwe wythnos cyn etholiad, bydd angen i rai pobl allu gweld manylion y bobl sy'n gallu pleidleisio yn yr etholiad.



Os byddwch yn 16 oed neu'n hŷn ar ddyddiad yr etholiad, rhoddir eich enw a'ch cyfeiriad i'r canlynol:

- y bobl sy'n cynnal yr etholiad
- y bobl y gallwch bleidleisio drostynt yn yr etholiad

## Poeni am eich diogelwch?



Os ydych chi'n poeni y bydd cael eich enw a'ch cyfeiriad ar y gofrestr yn effeithio ar eich diogelwch, neu ddiogelwch rhywun rydych chi'n byw gyda nhw, cysylltwch â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol.




Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn **www.comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr**

# Pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy




Mae'r rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio.



**Peidiwch** â llenwi'r blychau yn yr adran hon os ydych am bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio.



Os nad ydych am bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, gallwch ddewis pleidleisio drwy'r post neu drwy **ddirprwy**.



Mae **dirprwy** yn golygu gadael i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i bleidleisio ar eich rhan.



Bydd angen i chi lenwi ffurflen i bleidleisio drwy’r post neu drwy **ddirprwy.**




Ceir rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy yn **www.gov.uk/sut-i-bleidleisio**




Os hoffech i ni anfon rhagor o wybodaeth atoch yn y post, ticiwch y blwch i roi gwybod pa wybodaeth yr hoffech ei chael:



☐ Gwybodaeth am bleidleisio drwy’r post



☐ Gwybodaeth am bleidleisio drwy **ddirprwy**



☐ Gwybodaeth am bleidleisio drwy’r post a phleidleisio drwy **ddirprwy**

# Eich llofnod

Llofnodwch isod i ddweud:



- Rydych yn byw yn y cyfeiriad rydych wedi'i ysgrifennu



- Mae'r holl wybodaeth a roddwyd gennych yn wir



- Rydych yn deall y bydd yr wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn cael ei defnyddio ar y Gofrestr Etholiadol



- Rydych yn deall, os nad ydych yn gwneud cais i fod ar y gofrestr etholwyr pan ofynnwyd i chi, y gallai arwain at ddirwy o £80. Nid yw'r ffigur £80 hwn yn berthnasol i bobl ifanc 14 a 15 oed

- Rydych yn deall os ydych wedi rhoi unrhyw wybodaeth anghywir y gallech gael dirwy anghyfyngedig a/neu fynd i'r carchar am hyd at 6 mis



Llofnod



Dyddiad heddiw

# ID Pleidleisiwr




Pan fyddwch yn pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio bydd angen i chi fynd ag ID ffotograffig gyda chi ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.




Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ID ffotograffig yn **www.gov.uk/sut-i-bleidleisio/id-ffotograffig-y-bydd-ei-angen-arnoch**




Os nad oes gennych ID ffotograffig, gallwch wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr i'w defnyddio fel ID ffotograffig pan fyddwch yn pleidleisio.



Gallwch gysylltu â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol a gofyn iddynt anfon ffurflen gais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr hawdd ei darllen atoch.




Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn **www.comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr**

# Problemau gyda'r ffurflen hon?




Os ydych yn cael problemau gyda'r ffurflen hon, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol.




Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn **www.comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr**

# Datganiad preifatrwydd



Os ydych yn dewis bod ar y Gofrestr Agored, gall unrhyw un brynu'ch gwybodaeth.



Efallai y byddan nhw'n ei defnyddio i gysylltu â chi i ddweud wrthych chi am rywbeth neu geisio gwerthu rhywbeth i chi.




Os ydych yn **peidio** â chael eich enw a'ch cyfeiriad ar y Gofrestr Agored, dim ond pan fyddwn yn cynnal etholiadau a refferenda y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth.



Byddwn yn gofalu am eich gwybodaeth a'i chadw'n ddiogel. Byddwn yn dilyn y deddfau diogelu data.



Ni fyddwn yn rhoi unrhyw wybodaeth amdanoch chi i unrhyw un oni bai bod y gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni wneud hynny.




Rydym yn defnyddio’ch gwybodaeth mewn ffyrdd a nodir mewn deddfau o’r enw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a deddfau eraill.




Dywed y gyfraith bod yn rhaid i’r **Rheolwr Data** fod â hysbysiad preifatrwydd sy’n egluro sut y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio.



Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw’r **Rheolwr Data**.




I gael rhagor o wybodaeth am sut y gellir defnyddio’ch data personol, dylech fynd i’w hysbysiad preifatrwydd ar ei wefan.




Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad ei wefan a'i fanylion cyswllt yn **www.comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr**